**Cofnodion o Gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yn Senedd Cymru**

**Dydd Gwener, 14 Gorffennaf 2023**

**Yn Bresennol**

**Aelodau o'r Senedd:**

Mark Isherwood (Cadeirydd), Ken Skates, Llyr Gruffydd, Darren Millar, Gareth Davies a Rhun ap Iorwerth

**Arweinwyr Awdurdodau Lleol:**

Y Cynghorydd Charlie McCoubrey (Conwy), y Cynghorydd Jason McLellan (Sir Ddinbych), a'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Gwynedd),

**Siaradwyr:**

Shanker Singham, Prif Weithredwr, Competere

Ian Davies, Pennaeth Awdurdod Porthladdoedd y DU, Stena Line

Christian Branch, Pennaeth Gwasanaeth (y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), Cyngor Sir Ynys Môn

Y Cynghorydd Gary Pritchard, Ynys Môn

**Swyddogion:**

**CLlLC:**

Chris Llewelyn (Prif Weithredwr), Lucy Sweet (Ysgrifennydd Grŵp), Dilwyn Jones

(Rheolwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus)

**Llywodraeth Cymru:**

Wendy Boddington

**Uchelgais Gogledd Cymru**

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

**Trafnidiaeth Cymru:**

Lee Robinson, Cyfarwyddwr Datblygu Gogledd Cymru

Alex Fortune

## Camau y Cytunwyd Arnynt

- Gwahodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i gyfarfod yn y dyfodol o'r Grŵp Trawsbleidiol (maent newydd gwblhau eu hadroddiad interim ac wedi cyfarfod â'r Asau).
- Gwahodd Prif Swyddog Gweithrediadau Trafnidiaeth Cymru, Jan Chaudhry van der Veldr, i fynychu cyfarfod yn y dyfodol o'r Grŵp Trawsbleidiol i siarad

am heriau gweithredol i ddarparu gwasanaethau rheilffordd yng Ngogledd Cymru, yn arbennig y rheiny sy'n effeithio Llinell y Gororau Wrecsam i Bidston.
- Anfon llythyr dilynol i Drafnidiaeth Cymru ynghylch opsiynau tocyn tymor, lleihau ffioedd yng Ngogledd Cymru a lleoliad staff uwch a staff gweithredol yng Ngogledd Cymru sy'n debyg i'r rhai sy'n De Cymru (Gofyn i Drafnidiaeth Cymru i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf o'r Grŵp Trawsbleidiol)
- Grŵp Trawsbleidiol i roi pwysau ar y Llywodraeth ynghylch penderfyniad Porthladd Caergybi.
- Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol i drefnu cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i drafod rhaglen waith y grŵp (cyn y cyfarfod nesaf).

## 1. Croeso gan y Cadeirydd a Chyflwyniadau (13-13:05)

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror a 19 Mai 2023 a Materion yn Codi

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

## Porthladdoedd Rhydd

## 3. Cyflwyniad gan y Bwrdd Llywodraethu Porthladd Rhydd Ynys Môn

Atodwyd sleidiau'r cyflwyniad gyda'r cofnodion

Pwyntiau allweddol:

- Porthladd rhydd yn cael ei reoli gan un awdurdod lleol, Ynys Môn, sydd yn unigryw os edrychwch ar borthladdoedd rhydd eraill.
- Roedd yn gynnig **rhanbarthol** a bydd manteision i Ogledd Cymru ar y cyfan.
- Statws porthladdoedd rhydd wedi'i sicrhau, ond mae dal llawer iawn o waith i'w wneud.
- Cam nesaf - achos busnes i'r ddwy lywodraeth erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cwestiynau**

**A oes dadansoddiad o fanteision economaidd gan Awdurdod Lleol Gogledd Cymru? (Gareth Davies AS)**

Wedi defnyddio grŵp modelu economaidd i gynllunio gweithgaredd economaidd, nid yw'r rhif swyddi o 13,000 yn benodol ar gyfer Ynys Môn.

Does gennym ddadansoddiad yn ôl cyngor, bydd yn ddibynnol ar systemau eco sydd yn bodoli yn y porthladd rhydd.

**Cludo Nwyddau ar y Rheilffordd - a oes unrhyw drafodaethau eisoes ynghylch cludo gan ddefnyddio'r porthladd? (Alex Fortune, Trafnidiaeth Cymru)**

Does dim llawer o dir yn y porthladd, yn edrych i ddefnyddio'r pen rheilffordd i ychwanegu gwerth ac mae llawer o ddiddordeb wedi bod. Un prosiect sy'n cael sylw yw mewnforio agregau ar raddfa.

Bydd hyn yn ffrwd waith Cludiant - bydd ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru.

**Sut bydd y Bwrdd Rheoli yn ymgysylltu gyda'r partneriaid cyflawni perthnasol megis Trafnidiaeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru? (Mark Isherwood)**

Gweld y porthladd rhydd yn gyfle i Ogledd Cymru ar y cyfan.

Eisoes yn berthynas gyfredol gyda'r fargen dwf, gellir rhagweld rôl o fewn y strwythur llywodraethu ar gyfer y fargen dwf.

**Mae pob math o borthladdoedd rhydd o amgylch y byd, nid yw pob un yn rai da, sut i sicrhau y bydd hwn yn fanteisiol yn hytrach na phroblem fawr iawn? A fydd prosesau modern a llywodraethu cadarn? A fydd swyddi yn cael effeithiau lleol? A fydd darparwyr FE yn rhwym i'r uchelgeisiau? (Rhun ap Iorwerth)**

Mae gan borthladdoedd rhydd da gydymffurfiaeth well - bydd parth glân OECD ayyb yn hanfodol i ddatblygiad.

Wedi anelu at ddatblygiad cynaliadwy, cyflogaeth hirdymor i bobl. Ffocysu ar yrru addysg a sgiliau. Academi Tollau a Masnachu Cymru yn Ynys Môn.

Mae'r ddwy Lywodraeth yn gyrru ar gyfer cynrychiolwyr lleol, cenedlaethol a rhanbarthol ar y bwrdd llywodraethu.

**Pa fath o rif gwaith ydym yn drafod? (Rhun ap Iorwerth) Ac a ydynt yn swyddi ychwanegol yn unig? (Ken Skates)**

Byddwn yn gallu darparu gwybodaeth bellach ymhellach ymlaen yn y broses.

Byddant, swyddi ychwanegol yn unig, nid dadleoliad swydd yn unig.

**Effaith ar Rosgoch? (Rhun ap Iorwerth)**

Mae Rhosgoch yn ased o ran hen linell rheilffordd.

O safbwynt y cyngor, dylid dod â'r hen linell yn ôl yn weithredol.

Llawer o enghreifftiau drwg o borthladdoedd rhydd, yn ceisio dysgu gwersi o'r enghreifftiau hynny.

## Cysylltedd Rheilffordd

### 4. Diweddariad a thrafodaeth ar gamau gweithredu o'r cyfarfod ar 19 Mai

Rhoddodd Stephen Jones, Tasglu Rheilffordd Gogledd Cymru a Mersi (Ysgrifennydd y Bwrdd) ddiweddariad ar lythyrau a anfonwyd ac ymatebion a dderbyniwyd gan Drafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ers y cyfarfod diwethaf o'r Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru.

Mae'n bwysig ymgyrchu gyda gofynion o ran cost, aros tan yr Hydref, bydd Trafnidiaeth Cymru yn mynd drwy nifer o brosesau ac efallai byddwn yn ddigon

ffodus i gael llif o welliant rhwydwaith rheilffordd ac ymateb posibl i'r adolygiad cysylltedd erbyn hynny.

**Cwestiynau:**

**Problem gynyddol yw diffyg dibynadwyedd. Angen gwell ddealltwriaeth gan Drafnidiaeth Cymru ynghylch pa gamau gweithredu sy'n cael eu gwneud yn y tymor byr i fynd i'r afael â materion difrifol (Darren Millar AS).**

**A ellir cael tocynnau tymor o ryw fath ar gyfer Gogledd Cymru? (Darren Millar AS)**

Cam gweithredu - Gwahodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i gyfarfod yn y dyfodol - maent newydd gwblhau eu hadroddiad interim ac wedi cyfarfod â'r Asau.

Trafnidiaeth Cymru - mae llawer o waith yn mynd rhagddo, ond yn deall nad yw'r sefyllfa yn ddigon da.

Mater tocyn tymor - bydd yn pasio ymlaen i gydweithwyr sydd yn edrych ar docynnau a refeniw.

Cam Gweithredu - Gwahodd Prif Swyddog Gweithrediadau Trafnidiaeth Cymru, Jan Chaudhry van der Veldr, i fynychu cyfarfod yn y dyfodol o'r Grŵp Trawsbleidiol i siarad am heriau gweithredol o ddarparu gwasanaethau rheilffordd yng Ngogledd Cymru, yn arbennig y rheiny sy'n effeithio Llinell y Gororau Wrecsam i Bidston.

## 5. Y newyddion diweddaraf gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru

Rhoddodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ddiweddariad byr ar waith Uchelgais Gogledd Cymru, gan ffocysu ar brosiectau ar restr fer ac wedi'u tynnu'n ôl, a chynnydd y prosiectau presennol.

**Cam Gweithredu-** Mae penderfyniad porthladd Caergybi yn rhwystr mawr. Y Grŵp Trawsbleidiol i roi pwysau ar y Llywodraeth.

## 6. Unrhyw Fater Arall

Cyfarfod nesaf ym mis Hydref neu Dachwedd, dyddiad i'w gadarnhau